

## Diweddariad Blynyddol PPC – 2025/2026

Croeso i ddiweddariad blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC), sy'n rhoi cipolwg i chi o'r gwaith y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'i wneud dros y deuddeg mis diwethaf.

Ar 31 Mawrth 2026, mae'r gronfa wedi cynyddu ei chyfran o asedau o dan reolaeth y gronfa i 82%, ac mae'r rhaglenni buddsoddi Eiddo Tirol yn cael eu lansio yn ystod y flwyddyn.

Ym mis Mehefin 2025, cafodd diwrnod rheolwyr Marchnadoedd Preifat cyntaf PPC ei gynnal yng Nghaerdydd lle cyflwynodd GCM Grosvenor, Russell Investments a Schroders Capital i swyddogion ac i aelodau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ynghylch portffolios buddsoddi mandadau marchnad breifat PPC. Yn ystod y digwyddiad, rhoddodd y tri fanylion am y buddsoddiadau lleol ym mhob portffolio, gan gynnwys rhaglen tai fforddiadwy ledled Cymru.



Fel y soniwyd yn y diweddariad y llynedd, yn dilyn Ymgynghoriad Addas ar gyfer y Dyfodol 2024, mae'r Llywodraeth wedi cymeradwyo achos busnes PPC i barhau i fod yn gronfa fuddsoddi annibynnol i Gymru. Mae hyn yn creu cyfle unigryw i sefydlu canolfan ragoriaeth sylweddol mewn buddsoddiadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru, gan greu cyfleoedd gyrfaw gwerthfawr wrth wella'r sector gwasanaethau ariannol yng Nghymru. Mae symud ymlaen i weithredu'r achos busnes wedi bod yn ffocws allweddol i PPC dros y deuddeg mis diwethaf. Sefydlwyd Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP IM Co) ym mis Awst 2025, a chafodd Rob Lamb ei benodi'n Brif Weithredwr ym mis Medi 2025. Cyflwynwyd cais yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ym mis Tachwedd 2025 ac mae'r holl Swyddogaethau Uwch-reolwr angenrheidiol wedi'u penodi. Cyflwynwyd cynllun busnes cychwynnol Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar 10 Mawrth, ac wedi hynny cafodd ei gymeradwyo gan yr holl Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r cwmni'n barod i weithredu cyn gynted ag y bydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn rhoi ei gymeradwyaeth.

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod PPC wedi ennill gwobrau Arloesi Buddsoddi LGC a LAPF eleni, i gydnabod dull PPC sy'n canolbwyntio'n lleol o ran buddsoddi effaith leol yng Nghymru – gan ysgogi twf economaidd, cefnogi busnesau bach a chanolig a chreu cyfleoedd cyflogaeth hirdymor. Cafwyd adborth rhagorol gan y ddau banel beirniadu. Dywedodd un y canlynol, "*Our winner provided a best-in-class example of concrete, innovative, place-based investing with rigour and keen focus on returns required to meet fiduciary requirements*" ac roedd y llall yn canmol creadigrwydd PPC wrth gysylltu buddsoddiad sefydliadol â'r economi go iawn, gan ei ddisgrifio fel model sy'n gallu ehangu a allai ysbrydoli mentrau tebyg mewn mannau eraill, a'i bod yn enghraifft wych o arloesi gyda chanlyniadau cymdeithasol ac economaidd pendant.

Mae buddsoddi cyfrifol yn parhau i fod yn ffocws allweddol. Ar ôl cyflwyno'i phumed Adroddiad Stiwardiaeth blynyddol, llwyddodd PPC unwaith eto i gadw ei statws llofnodwr o ran Côt Stiwardiaeth Cyngor Adrodd Ariannol y DU. Cyhoeddodd PPC ei hail Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan (AWCR) a, gan adeiladu ar yr argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad Hinsawdd Cymru gyfan cyntaf, lansiodd ei chronfa ecwiti goddefol bydeang bwrpasol ei hun gyda BlackRock. Mae PPC hefyd yn y broses o gwblhau ei Hadroddiad Effaith Cymru gyfan cyntaf, a fydd ar gael ar wefan PPC cyn bo hir.

O ran stiwardiaeth, mae PPC wedi adolygu ei fframwaith buddsoddi ac wedi gweithio ar y cyd â'i ddarparwyr gwasanaeth i ymgorffori ei hegwyddorion uwchgyfeirio, yn ogystal â chwblhau gwaith ar fframwaith gwaharddiadau a dadfuddsoddi, gyda'r nod o eithrio buddsoddiadau ar draws rhai meysydd gweithgarwch. Gellir dod o hyd i Bolisi Buddsoddi Cyfrifol PPC wedi'i ddiweddarau ar wefan PPC, ynghyd â pholisïau a chyhoeddiadau eraill PPC:

[Cronfa Bensiwn Cymru | Cyhoeddiadau.](#)

Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad yr is-gronfeydd ecwiti ac incwm sefydlog dros y 12 mis diwethaf. Roedd pob marchnad wedi darparu enillion cadarnhaol dros y flwyddyn; fodd bynnag, ar wahân i'r is-gronfa Marchnadoedd Datblygol, roedd yr is-gronfeydd y tu ôl i'r meincnod neu'r targed. Mae'r Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn cael diweddariadau chwarterol ynghylch yr holl is-gronfeydd, ynghyd ag esboniadau manwl mewn perthynas â pherfformiad cymharol.

	Perfformiad PPC dros 12 mis hyd at 31 Mawrth 2026 (Ffioedd Net)				
	Dyddiad Dechrau	Asedau Dan Reolaeth (£'000)	Cronfa %	Meincnod %	Cymharol %
Is-gronfeydd Ecwiti					
Twf Byd-eang	Chwefror 2019	3,777,538	13.91	17.47	(3.56)
Cyfleoedd Byd-eang	Chwefror 2019	3,518,894	16.99	17.47	(0.48)
Cyfleoedd y DU	Hydref 2019	898,662	17.55	21.54	(3.99)
Marchnadoedd Datblygol	Hydref 2021	358,345	31.45	28.67	2.78
Gweithredol Cynaliadwy	Mehefin 2023	1,714,186	13.29	17.47	(4.18)
Is-gronfeydd Incwm Sefydlog					
Credyd y DU	Awst 2020	888,276	4.19	4.97	(0.78)
Bond Llywodraeth Fyd-eang	Awst 2020	515,955	2.52	2.58	(0.06)
Credyd Byd-eang	Awst 2020	1,348,780	4.28	4.45	(0.17)
Cronfa Credyd Aml-asedau	Awst 2020	974,694	7.29	8.30^	
Bond Elw Absoliwt	Medi 2020	812,857	4.17	6.23^	

Ffynhonnell: Adroddiad Northern Trust fel yr oedd ar 31 Mawrth 2026

^ Mae'r rhain yn dangos targedau perfformiad y Cronfeydd Credyd Aml-asedau a Bond Elw Absoliwt

Mae PPC yn parhau i weithio'n agos gyda Robeco, ei Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, ac mae'n mynd i'w ddau banel cleientiaid blynyddol. Yn y cyfarfodydd eleni, aethpwyd ati i drafod nifer o feysydd ymgysylltu, gan gynnwys: ymgysylltu mewn ardaloedd y mae gwrthdaro'n effeithio arnynt ac ardaloedd risg uchel; bioamrywiaeth a newid hinsawdd; yn ogystal â stiwardiaeth yn yr Unol Daleithiau. Roedd tair o'r pum thema arfaethedig i'w lansio yn 2026 wedi'u cefnogi gan PPC, ac roedd PPC wedi cyflwyno dwy yn benodol i'w hystyried: Deallusrwydd Artiffisial Cyfrifol; Gwydnwch (Hinsawdd) Ffisegol. Yn ystod 2025/26, cydweithiodd PPC â buddsoddwyr eraill, gan gynnwys cronfa Gronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol arall i wneud penderfyniad y cyfrandalwyr ar y cyd yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol 2026 BP. Mae'r crynodebau o'r gweithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu a gynhaliwyd gan Robeco ar ran PPC dros y 12 mis diwethaf yn cael eu nodi isod:

Nifer y pleidleisiau ar gynigion	17,904	Nifer y cyfarfodydd	1,461
O blaid	15,917 (89%)	Gyda'r rheolwyr	15,689 (88%)
Yn erbyn	1,852 (10%)	Yn erbyn y rheolwyr	1,868 (10%)
Ymatal/ Heb bleidleisio/ Ddim yn pleidleisio	123 (0.7%)	Amherthnasol	347 (2%)
Arall	12 (0.1%)		
<b>Cyfanswm</b>	<b>17,904</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>17,904</b>

	Cyfanswm
Yr Amgylchedd	203
Cymdeithasol	61
Llywodraethu	90
Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC)	228
Cysylltiedig â phleidleisio	22
Manwl	48
<b>Cyfanswm</b>	<b>652</b>

Ffynhonnell: Robeco; mae canrannau'r cyfansymiau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

Fel cronfa, rydym yn edrych ymlaen at weld sut y bydd dyfodol Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC yn datblygu ac fel bob amser, rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth a chyfraniad parhaus yr wyth Awdurdod Cyfansoddol a'n darparwyr gwasanaeth allanol.